Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Coflyfr
## Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 21 Medi 2019

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

d) (ch) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Ebrill i Fehefin 2019.

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Cynnwys


Dim tystiolaeth o dorri'r cod....................................................................................................1

Nid oes angen gweithredu.......................................................................................................... 2

Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau......................................................................................................2

Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru.....................................................................................2

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dorri'r Cod

Cyngor Cymuned Sili a Larnog - Datgelu a chofrestru buddiannau

Rhif Achos: 201802547 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2019

Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Sili a Larnog ("y cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd, er bod yr Aelod yn ymwybodol bod cwyn wedi'i chyflwyno i'r Cyngor ynghylch ei ymddygiad, methodd â datgan buddiant pan drafodwyd y materion yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd, gofynnwyd am wybodaeth hefyd gan y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir a'r Aelod. Ar ôl adolygu'r wybodaeth o'i flaen, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad.

Amlwch Town Council - Hybu cydraddoldeb a pharch

Rhif Achos: 201802863 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2019

Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Tref Amlwch ("y Cyngor") wedi torri amodau'r Cod Ymddygiad yn ei ymddygiad tuag at Glerc y Cyngor mewn cyfarfod.

Fe wnaeth yr Ombwdsmon ymchwilio a oedd yr Aelod wedi torri amodau'r Cod yn ymwneud â dangos parch ac ystyriaeth, peidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu unrhyw berson, a pheidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu hawdurdod. Fe gyfwelwyd â detholiad o'r rheiny oedd yn bresennol yn y cyfarfod, gan gynnwys aelodau o'r Cyngor ac aelodau o'r cyhoedd. Nid oedd y dystiolaeth yn cefnogi'r gwyn.

O dan Adran 69(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd tystiolaeth bod yr Aelod wedi methu cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Cyngor Cymuned Powys - Hybu cydraddoldeb a pharch

Rhif Achos: 201803813 & 201803815 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2019

Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Powys ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd bod yr Aelod wedi gwneud sylwadau i'r wasg dro ar ôl tro am fusnes yr achwynydd, a achosodd i'r achwynydd deimlo ei fod yn cael ei fwlio a'i aflonyddu.

Yn ystod gwrs yr ymchwiliad, darparwyd gwybodaeth gan bartïon perthnasol gan gynnwys yr achwynydd a'r Swyddog Monitro.

Canfu'r Ombwdsmon nad oed dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad. Roedd y materion y cyfeiriwyd atynt gan yr achwynydd yn gywir a chyhoeddus. Nid oedd tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod yr aelod wedi datgelu materion i'r wasg.

## Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy - Gonestrwydd

### Rhif Achos: 201807788 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2019

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad pan drefnodd i drosglwyddo data Cyngor i raglen storio electronig, allanol. Honnwyd bod yr Aelod wedi gweithredu'n amhriodol i berswadio staff y Cyngor i roi mynediad iddo i ffeiliau'r Cyngor, a'i fod wedi cyrchu'n amhriodol y wybodaeth a oedd ar gael iddo yn ystod y broses trosglwyddo ffeiliau.

Ar ôl cael gwybod, yn ystod gwrs yr ymchwiliad, bod yr Aelod wedi ymddiswyddo o'r Cyngor, daeth i'r casgliad nad oedd y gŵyn bellach yn bodloni gofynion diddordeb cyhoeddus y prawf dau gam a therfynwyd yr ymchwiliad.

## Cyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau

### Cyngor Cymuned Cwmllynfell - Hybu cydraddoldeb a pharch

### Rhif Achos: 201704948 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2019

Fe dderbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Cymuned Cwmllynfell ("y Cyngor") wedi dangos ymddygiad amharchus a bwlio tuag at y Clerc (ar y pryd) yn ystod dau gyfarfod.

Canfu'r Ombwdsmon dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i'r Clerc blaenorol wrth godi materion o natur bersonol, nad oedd yn gysylltiedig â pherfformio dyletswyddau'r Clerk, yn ystod yr ail gyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd. Ystyriwyd bod gweithredoedd yr Aelod yn groes i un o Reolau Sefydlog y Cyngor. Canfu'r Ombwdsmon hefyd fod tystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod wedi arddangos ymddygiad bwlio tuag at y Clerc yn y cyfarfod hwn.

Penderfynodd yr Ombwdsmon y dylid cyfeirio'r mater at Swyddog Monitro Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i'w ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Daeth y Pwyllgor Safonau i'r casgliad bod ymddygiad yr Aelod o ran yr ail gyfarfod yn torri paragraffau 4(b) a 4(c) o God Ymddygiad y Cyngor. Yn ogystal, canfu'r Pwyllgor Safonau bod yr Aelod, wrth ymddwyn fel hyn yn ystod y cyfarfod, hefyd wedi dwyn anfri ar swyddfa'r aelod trwy dorri paragraff 6(1)(a). Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau gerydd i'r Aelod am dorri'r Cod.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Ni does crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn.